Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

HM Prison & Probation Service

# Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg HMPPS i Gomisiynydd y Gymraeg Rhagfyr 2023

## Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPSWLS) i Gomisiynydd y Gymraeg, a gyflwynir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein perfformiad yn erbyn ein hymrwymiadau a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg HMPPS (y Cynllun) ers ei roi ar waith yn 2020 hyd at ddiwedd y Cynllun ym mis Medi 2023. Mae'r ddogfen hon hefyd yn adrodd am weithgareddau sy'n ymateb i argymhellion Adroddiad y Gymraeg mewn Carchardai 2018 Comisiynydd y Gymraeg (Atodiad A).

## Cynllun Iaith Gymraeg HMPPS

Mae HMPPS wedi ymrwymo i'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal; yn parhau â'n nod o ddarparu gwasanaeth Cymraeg o ansawdd uchel ac, yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn mabwysiadu'r arferion gorau posibl o ran defnyddio'r Gymraeg.

Amy Rees, Prif Weithredwr HMPPS sy'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am gydymffurfiaeth gyfreithiol yr Asiantaeth â'r HMPPSWLS. Fe'i rheolir ar ei rhan gan Uned Anghyfartaledd HMPPS.

Yn 2023, penododd HMPPS Uwch Hyrwyddwr y Gymraeg hefyd a fydd yn ysgogi ffocws, blaenoriaethu a chynnydd trwy drosoli eu gallu arweinyddiaeth, profiad ac angerdd presennol. Bydd Hyrwyddwr y Gymraeg yn bartner allweddol wrth ddylunio, darparu a gweithredu gweithgarwch y Cynllun Iaith Gymraeg.

## Polisïau a Mentrau

### Cydweithio

Cynrychiolir HMPPS mewn sawl cyfarfod sy'n ystyried yn benodol y ddarpariaeth Gymraeg ar draws y Gwasanaeth Sifil, Cyfiawnder Troseddol a gwasanaethau ehangach y sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grŵp Deddf – Cyfarfod cydlynol sector penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaeth Sifil i rannu arferion da.
- Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg – dan gadeiryddiaeth Uwch Farnwr i gydlynu gweithgareddau Cymraeg ar draws y Sector Cyfiawnder Troseddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio Is-Bwyllgor Iaith Gymraeg Trawsweithrediad y Sector Cyfiawnder.
- Rhwydwaith Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Sifil – dan gadeiryddiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn darparu gweithgareddau a mentrau ar y cyd ar draws y Gwasanaeth Sifil.
- Cyfarfod Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder – dan gadeiryddiaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), gan ymgysylltu ag arweinwyr iaith Gymraeg o asiantaethau'r MoJ.

Dros gyfnod y Cynllun, mae ymdrechion ar y cyd wedi cynorthwyo i gyflwyno amrywiaeth o fentrau iaith Gymraeg, gan gynnwys cyflwyno cwestiwn monitro sgiliau iaith Gymraeg ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r holl staff, archwiliadau rheolaidd o sgiliau Cymraeg staff ar draws asiantaethau cyfiawnder troseddol, a dull y gwasanaeth sifil gyfan at ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys presenoldeb blynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae HMPPS hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLITEF) i ganfod yn well y siaradwyr Cymraeg sy'n dod drwy'r llysoedd. Bydd newid sydd ar ddod i Common Platform GLlTEF yn sicrhau bod Ymarferwyr Prawf yn gallu nodi dewis iaith cyn gynted â phosibl er mwyn darparu gwasanaethau amserol yn Gymraeg a chefnogi asesiadau effeithiol o adroddiadau cyn-dedfrydu.

## Dadansoddiad Cydraddoldeb

Yn gynnar yn 2023, lansiodd HMPPS ein Fframwaith Polisi Dadansoddi Cydraddoldeb newydd sy'n disodli PSI 20/2016 'Dadansoddiad o Weithredu Cydraddoldeb'. Bu'r fframwaith a'r canllawiau a'r hyfforddiant cysylltiedig yn destun ymgynghori helaeth ar draws adrannau ac arbenigwyr perthnasol, grwpiau defnyddwyr a Thimau Amrywiaeth a Chynhwysiant rhanbarthol. O ganlyniad, mae'r fframwaith newydd yn cynnwys dull cryfach o sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gadarn fel rhan o wneud penderfyniadau, gwneud newidiadau a dylunio polisïau a gwasanaethau. Mae'r fframwaith bellach yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr ystyried nid yn unig effaith eu gweithgarwch ar y Gymraeg, ond hefyd y cyfleoedd i'w hyrwyddo. Mae pecyn arweiniad gweithredol ac e-ddysgu cynhwysfawr yn cefnogi staff i ymgysylltu â'r Cynllun Iaith Gymraeg wrth gynllunio eu gweithgarwch, ac yn darparu enghreifftiau ymarferol o sut y gellir ystyried yr iaith Gymraeg, er enghraifft, trwy gasglu data, deall angen ieithyddol a rhoi sylw i drefniadau polisi datganoledig.

## Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg

Rydym wedi cydnabod yr arfer da sy'n bodoli ar draws sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n destun Safonau'r Gymraeg ac wedi sefydlu Gweithgor Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg sy'n datblygu Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg i Gymru. Bydd hyn yn adeiladu ar ein harlwy i staff yng Nghymru ac yn gwella ar hynny, yn ogystal â nodi

dull mwy cadarn o asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd, a'n darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg o fewn ein prosesau recriwtio (Argymhelliad 10).

### Gwasanaethau Digidol

Mae HMPPS Digital wedi cwblhau gwaith yn ddiweddar i gefnogi ymateb effeithiol i'r gofynion a nodir yn y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys diffinio dull o gyflawni mewn ymgynghoriad ag Uned y Gymraeg a dysgu gan adrannau eraill y llywodraeth i ddeall sut y gall meddalwedd gefnogi'r broses. Er mwyn i'r dull fod yn effeithiol, rhaid iddo fod yn gynaliadwy, yn gyson ac y gellir ei ddefnyddio a'i ailadrodd. Bydd Prisons Digital yn treialu cyflwyno cynnyrch dwyieithog gyda thîm Ymweld â Rhywun yn y Carchar. Maent yn datblygu cynnyrch i'r cyhoedd a fydd yn gwella'r profiad o ymweliad cymdeithasol drwy ganiatáu i aelodau'r cyhoedd gofrestru fel ymwelydd ac archebu eu slotiau ymweliadau eu hunain yn Gymraeg. Yn ogystal â hyn, bydd y tîm yn edrych ar:

1. Sut i ddefnyddio meddalwedd i ychwanegu a rheoli cyfieithiadau orau
2. Sefydlu ffyrdd effeithiol o ailadrodd cynnwys Cymraeg, gydag adborth gan ddefnyddwyr
3. Sicrhau cysondeb iaith ar draws taith y defnyddiwr
4. Gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth i weld sut maent wedi mynd ati i roi cymorth i'r Gymraeg yn eu gwasanaethau

Bydd eu canfyddiadau wedyn yn cael eu defnyddio i lunio proses y gellir ei chyflwyno i gynhyrchion eraill ar gyfer y cyhoedd sy'n cael eu datblygu neu eu diweddaru yn HMPPS Digital.

## Darparu a Safonau Gwasanaeth

Mae Cynllun Iaith Gymraeg presennol HMPPS ar gael i'r holl staff drwy fewnrwyd fewnol newydd HMPPS ac ar gael i'r cyhoedd drwy gov.uk. Ledled Cymru, mae hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg yn weithgaredd parhaus, gyda phosteri, baneri a gwybodaeth yn cael eu rhannu'n eang ar draws carchardai, a grŵp iaith Gymraeg penodol yn gweithredu ar draws ein Hunedau Cyflawni Gwasanaeth Prawf.

Mae gan bob Uned Gyflawni Carchardai a Phrawf yng Nghymru Hyrwyddwr Iaith Gymraeg penodol sy'n gyfrifol am gyflwyno mentrau Cymraeg lleol, a hyrwyddo'r Cynllun i'r cyhoedd (carcharorion, pobl ar brawf, ymwelwyr) a staff. Mae pob Hyrwyddwr yn mynychu Bwrdd Gweithredu'r Iaith Gymraeg chwarterol, wedi'i gadeirio ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun a'i hyrwyddo, ac mae ei waith wedi'i ategu gan Gynllun Iaith Gymraeg Strategol (Argymhellion 7, 16).

Ar hyn o bryd mae HMPPS yng Nghymru yn cefnogi staff i ddilyn cyrsiau Cymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys darpariaeth ar-lein ac yn bersonol. Yn 2021, mynychodd ein holl staff prawf ledled Cymru sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg orfodol, ac mae pob Swyddog Prawf newydd yn cael mewnbwn ar y

Gymraeg a’u cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o’u hyfforddiant cychwynnol.

Mae CEF Berwyn wedi cyflwyno cwrs Ymwybyddiaeth o’r Iaith Gymraeg yn ddiweddar, sy'n cael ei gyflwyno i’r holl staff ar adeg eu sefydlu, ac mae gwaith ar y gweill i ailadrodd hyn ar draws holl garchardai Cymru. Yn 2022, cafodd yr holl Staff Dysgu a Sgiliau sydd wedi’u lleoli yng ngharchardai Cymru gyfle i fynychu gweithdy iaith Gymraeg fel rhan o’u diwrnod datblygiad proffesiynol. Darperir cyfleoedd anffurfiol i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd ar draws HMPPS Cymru, gan gynnwys boreau coffi ‘ Bore’ rheolaidd sy’n dod â dysgwyr a siaradwyr rhugl ynghyd (Argymhelliad 12).

Mae ein staff yn dweud...

**“Mae defnyddio’r Gymraeg, sef fy iaith gyntaf, yn y gweithle o ddydd i ddydd yn rhoi’r cyfle i mi deimlo’n hyderus yn fy rôl, ac yn fy ngalluogi i wneud i eraill deimlo’n fwy hyderus a chyfforddus drwy roi’r un cyfleoedd iddyn nhw.”**

**"Mae'r Gymraeg yn rhan o fy hunaniaeth, felly mae mor bwysig i mi fy mod yn cael ei defnyddio yn fy ngwaith, hynny yw gyda fy nghydweithwyr a'r unigolion rwy'n eu goruchwylio."**

## Cwynion

Mae Bwrdd Gweithredu'r Iaith Gymraeg HMPPS Cymru yn monitro'r holl gwynion a dderbynnir gan bobl yn y carchar a phobl ar brawf yng Nghymru bob chwarter. Mae carcharorion ledled Cymru a Lloegr yn gallu defnyddio’r Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiad Gwahaniaethol (DIRF) i adrodd am bryderon ynghylch triniaeth annheg gan staff neu garcharorion eraill sy’n ymwneud â’u hunaniaeth Gymreig, neu eu hawl i ddefnyddio’r Gymraeg. Hyrwyddir y broses DIRF yn eang, ac mae ffurflenni ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae staff yn gallu nodi cwynion mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys prosesau adrodd AD ffurfiol, trwy Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg a nodwyd a thrwy Dîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru (Argymhelliad 13).

Mae manylion cwynion a dderbyniwyd yn ystod oes y Cynllun i'w gweld yn Atodiad B. Mae pob achwynydd wedi derbyn ymateb, a lle bo modd, mae gwelliannau wedi'u gwneud i brosesau yn seiliedig ar faterion a godwyd.

## Data

Yng Nghymru, gwnaed ymdrechion sylweddol i sicrhau bod gwybodaeth am sgiliau iaith carcharorion a phobl ar brawf yn cael ei chasglu cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y gellir darparu gwybodaeth a gwasanaethau perthnasol yn Gymraeg lle bo angen. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud gwelliannau pellach i gysondeb y gwaith casglu data hwn (Argymhelliad 3).

**Nifer y carcharorion sy’n siarad Cymraeg* fesul carchar sector cyhoeddus yng Nghymru a’r cyfanswm cyffredinol ar gyfer carchardai sector cyhoeddus Lloegr (hyd at fis Medi 2023)****

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| **Berwyn** | 125 | 161 | 177 | 182 |
| **Caerdydd** | 69 | 64 | 53 | 52 |
| **Parc (ac eithrio'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc)** | 60 | 69 | 65 | 67 |
| **Abertawe** | 102 | 97 | 93 | 80 |
| **Brynbuga** | 5 | 4 | 6 | 7 |
| **Prescoed** | 6 | 15 | 16 | 11 |
| **Cyfanswm Terfynol** | 367 | 410 | 410 | 399 |

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg** | 101 | 102 | 119 | 116 |

**Gallai carcharorion gael eu cyfrif fwy nag unwaith pe baent yn symud carchar.*
***Data wedi'u cymryd o ddewis iaith wedi’i hunanddatgan a gofnodwyd ar P-NOMIS.*

**Nifer y menywod sy’n siarad Cymraeg* ar draws yr Ystad Menywod yn ôl blwyddyn galendr (hyd at fis Rhagfyr 2023)**

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg** | 3 | 5 | 2 | 3 |

Trwy ein gwaith gyda menywod Cymraeg eu hiaith mewn carchardai yn Lloegr, rydym yn cydnabod nad yw hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad cywir o fenywod y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt. Rydym yn bwriadu gwneud gwaith pellach i ddeall y gwir lefelau a'r rhesymau dros dangofnodi.

**Gallai carcharorion gael eu cyfrif fwy nag unwaith pe baent yn symud carchar.*
***Data wedi'u cymryd o ddewis iaith wedi’i hunanddatgan a gofnodwyd ar P-NOMIS.*

**Nifer y bobl sy’n siarad Cymraeg ar brawf* yng Nghymru yn unig fesul blwyddyn galendr (hyd at fis Medi 2023)**

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg** | 260 | 186 | 145 | 147 |

**Data wedi'u cymryd o ddewis iaith wedi'i hunanddatgan a gofnodwyd ar P-NOMIS

Ar hyn o bryd nid ydym yn gallu cael data ar nifer y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn y carchar oherwydd y ffordd y mae ein systemau yn cofnodi gwybodaeth yn yr Ystad Ieuenctid.

Mae archwiliadau â llaw rheolaidd wedi'u cynnal i sefydlu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg. Gan na fu unrhyw ffordd gyson yn hanesyddol o gasglu sgiliau iaith Gymraeg staff trwy systemau AD, bu cyfyngiadau ar ba mor effeithiol y gellir cyflawni hyn. Ar ddechrau 2023, cyflwynwyd cwestiwn Cymraeg newydd i systemau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd bellach yn caniatáu i staff hunanddatgan eu gallu yn y Gymraeg. Wrth i ddatganiadau gynyddu, rydym yn gobeithio gallu pennu'n fwy cywir ble mae ein bylchau o ran staff sy'n siarad Cymraeg ar draws y sefydliad er mwyn llywio ein cynlluniau recriwtio (Argymhelliad 9). Ym mis Rhagfyr 2023, roedd 4% o staff HMPPS (Cymru a Lloegr) a 13% o staff yng Nghymru wedi diweddaru eu cofnod personol gyda'u gallu yn y Gymraeg. Mae HMPPS Cymru yn monitro cyfraddau cwblhau bob chwarter drwy eu Bwrdd Gweithredu'r Iaith Gymraeg, gan ddarparu gohebiaeth a negeseuon staff rheolaidd i annog y datgelu gwirfoddol hwn.

## Recriwtio

Mae holl swyddi HMPPS a leolir yng Nghymru yn cael eu hysbysebu fel rhai lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, a dylid ystyried y swyddi hynny y gellir eu pennu yn ddilys yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle mae cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gyffredin. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes i'w ddatblygu o hyd, yr eir i'r afael ag ef drwy ein Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg, adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'n proses recriwtio yng Nghymru, a gwelliannau i'r data a gesglir ar bobl sy'n siarad Cymraeg ar brawf ac yn y carchar yng Nghymru. Gan fod gweithgarwch recriwtio wedi'i wasgaru ar draws swyddogaethau a thimau cenedlaethol/lleol, ar hyn o bryd nid oes mecanwaith yn ei le i goladu nifer y swyddi lle y bernir bod y Gymraeg yn hanfodol iddynt.

Mae ein Gweithgor Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg wrthi'n adolygu ein prosesau recriwtio yng Nghymru er mwyn rhoi ystyriaeth well i Ganllawiau Arfer Da Recriwtio Comisiynydd y Gymraeg ac ystyried ffyrdd o gyflawni hyn, yn ogystal ag ehangu ein cyrhaeddiad i ddenu mwy o ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg.

Mae pob un o'n hymgyrchoedd recriwtio allanol yng Nghymru yn ddwyieithog a lle gellir dangos bod angen, yn canolbwyntio'n benodol ar recriwtio siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, mae CEF Berwyn wedi cynnal sawl ymgyrch yn benodol i ddenu staff Gradd Cymorth Gweithredol sy'n siarad Cymraeg. Yn ehangach, mae ein cyfathrebu allanol yng Nghymru yn parhau i gefnogi ein hymdrechion i hyrwyddo HMPPS Cymru fel cyflogwr sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ein holl gyfryngau cymdeithasol sy'n hyrwyddo ein gwaith gyda phobl ar brawf a phobl yn y carchar yn ddwyieithog, yn aml gyda chynnwys fideo Cymraeg gwreiddiol. Mae staff Prawf Gogledd Cymru hefyd ar hyn o bryd yn ffilmio rhaglen ddogfen 'Darlun' i S4C sy'n dangos dyfnder ac ehangder gwaith ein timau Prawf.




## Pobl yn y Carchar ac ar Brawf

Y flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth carchardai yw dyrannu carcharorion ar sail nifer o fetrigau y gwyddom eu bod yn cefnogi adsefydlu llwyddiannus, ochr yn ochr â meini prawf diogelwch ac agosrwydd at eu cartrefi. Er ein bod yn deall bod iaith yn chwarae rhan mewn canlyniadau adsefydlu, nid ydym yn graddio ein carchardai o ran darpariaeth gwasanaeth iaith, ond mae gennym ddisgwyliad y gallant oll gynnig gwasanaethau y mae carcharorion eu hangen yn unol â dewis iaith. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai dyrannu carcharorion Cymraeg eu hiaith i leiafrif o garchardai arwain at ddibrisio'r Gymraeg ar draws yr ystâd ehangach. Mae'n hollbwysig nad yw hyn yn digwydd, ac erys ein ffocws ar annog tegwch darpariaeth iaith ar draws carchardai, p'un a ydych yn cael eich cadw yng Nghymru, neu'r tu allan iddi (Argymhelliad 1). Deallwn fod gennym fwy o waith i'w wneud i sicrhau bod hyn yn digwydd, a bydd ymgorffori darpariaeth Gymraeg ar draws ein carchardai yn Lloegr yn ffocws yn ein Cynllun nesaf. Mae ein gwaith gyda charchardai y tu allan i Gymru dros gyfnod y Cynllun hwn wedi rhoi blaenoriaeth i sefydliadau diogelwch uchel a sefydliadau menywod gan nad oes gennym y cyfleusterau hyn yng Nghymru, ac mae gan lawer bellach gymunedau Cymraeg ffyniannus.

Mae pob un o'n carchardai yng Nghymru bellach wedi sefydlu cymunedau Cymraeg (Argymhellion 6, 15), gan ymgysylltu â charcharorion sy'n dysgu Cymraeg, neu sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae fforymau Cymraeg rheolaidd yn cael eu cynnal ym mhob sefydliad ac maent wedi gallu gwneud awgrymiadau ynghylch gwelliannau i ddarpariaethau'r Gymraeg, gan gynnwys mwy o adnoddau Cymraeg mewn llyfrgelloedd a chyflwyno Cynrychiolwyr Carcharorion Cymraeg eu hiaith. Mae'r rhain yn siaradwyr Cymraeg sydd wedi cael rolau ar draws y carchar i gefnogi siaradwyr Cymraeg eraill ar adegau allweddol yn eu taith yn y ddalfa, er enghraifft, yn ystod noson gyntaf carcharor a'i sefydlu. Mae CEF Brynbuga, CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, a CEF Abertawe hefyd wedi cyflwyno gwersi Cymraeg dan arweiniad cyfoedion, lle mae carcharorion Cymraeg eu hiaith yn cefnogi eu cyfoedion i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach.

Mae dyddiadau arwyddocaol yn cael eu dathlu ar draws HMPPS Cymru, gan gynnwys ein carchardai, i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig. Mae hyn yn cynnwys Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Owain Glyn Dŵr, Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg a Diwrnod Shwmae Su'mae. Mae diwrnodau dathlu yn cael eu nodi trwy ddigwyddiadau carcharorion a staff, cystadlaethau a newidiadau i fwydlenni ar draws

sefydliadau. Mae CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn cynnal Eisteddfod flynyddol i garcharorion, ac yn ystod 2023, cynhaliodd CEF Brynbuga ei ddigwyddiad Eisteddfodol cyntaf. Eleni, bu pobl ifanc CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc hefyd yn cystadlu yng nghystadlaethau celf a chrefft, ysgrifennu, barddoniaeth a llenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gan sicrhau gwobr gyntaf ac ail wobr mewn categori celf a chrefft. Cafodd gwaith saer, gwaith celf a barddoniaeth a grëwyd gan garcharorion yn CEF Berwyn a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc a phobl ar brawf yn cwblhau gwaith di-dâl eu harddangos yn ddiweddar fel rhan o bresenoldeb HMPPS yn yr Eisteddfod Genedlaethol.




Gyda chefnogaeth y Swyddog Iaith Gymraeg yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, mae gwaith wedi parhau drwy gydol oes y Cynllun i nodi’r carchardai hynny yn yr Ystadau Menywod, Diogelwch Uchel Hirdymor a Dalfeydd Ieuenctid sydd â niferoedd sylweddol o garcharorion sy’n siarad Cymraeg (Argymhelliad 7).

## Yr Ystad Menywod

Mae CEF Downview, CEF Styal a CEF Eastwood Park wedi derbyn ymweliadau i hyrwyddo'r Cynllun. Mae CEF Eastwood Park a CEF Downview bellach yn hyrwyddo eu cymuned Gymraeg yn y dderbynfa fel bod carcharorion Cymreig yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosibl a bod dewis Cymraeg yn cael ei ddatgan. Mae gan CEF Downview grwpiau ffocws misol a bydd yn cynnal yr Eisteddfod gyntaf erioed mewn sefydliad Saesneg yn 2024.

## Y Ddalfa Ieuenctid

Mae CEF Werrington a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn gwbl ymwybodol o'r Cynllun ac yn cynnig cyfle i bob person ifanc ddatgan dewis pan fyddant yn cael eu sefydlu yn y sefydliad.

## Yr Ystad Diogelwch Uchel

Mae CEF Long Lartin bellach yn hyrwyddo eu cymuned Gymraeg yn y dderbynfa ac yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddatgan eu dewis cyn gynted â phosibl. Mae adborth carcharorion wedi nodi bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo’n gyfforddus yn siarad Cymraeg â’i gilydd ac mae’r carchar bellach yn cadw deunyddiau Cymraeg yn y llyfrgell ac yn dathlu dyddiadau arwyddocaol yn y calendr Iaith Gymraeg.

Mae arweinwyr iaith Gymraeg wedi’u penodi yn y sefydliadau canlynol y tu allan i Gymru:

- CEF Werrington

- CEF Guys Marsh
- CEF Long Lartin
- CEF Eastwood Park
- CEF Oakwood
- CEF Downview
- CEF Leyhill
- CEF Rye Hill

Fel rhan o’n blaenoriaethau strategol ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru yn ystod 23/24 rydym wedi ymgorffori asesiadau iaith Gymraeg yn ein model sicrwydd carchardai (Argymhelliad 7). Mae pob carchar yng Nghymru yn cael ymweliad blynyddol i asesu eu perfformiad yn erbyn ystod o ddangosyddion cydraddoldeb ac amrywiaeth, sydd bellach yn cynnwys yr iaith Gymraeg yn benodol. Mae gweithgarwch sicrwydd yn cynnwys grwpiau ffocws gyda charcharorion sy’n siarad Cymraeg (Argymhelliad 15), cyfweliadau ag Arweinwyr Iaith Gymraeg a monitro cydymffurfiaeth yn erbyn ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gyffredinol. Caiff y canfyddiadau eu bwydo'n ôl i'r Rheolwyr, yn ogystal ag unrhyw argymhellion ar gyfer newid. Caiff cynnydd yn erbyn argymhellion ei fonitro'n rheolaidd. Mae’r model sicrwydd hwn wedi’i ddatblygu’n ddiweddar fel ei fod yn briodol i’w ddefnyddio ar draws gwasanaethau Prawf Cymru, lle caiff ei roi ar waith yn fuan.

Dywed pobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau:

**“Mae’n gallu bod yn deimlad brawychus i drafod materion sensitif a phersonol mewn iaith sydd ddim mor gyfarwydd i chi, felly dyna pam dwi’n meddwl ei bod hi’n hanfodol bod opsiwn i gael Swyddog Prawf (sy'n siarad) Cymraeg.”**

## Rhanddeiliaid a grwpiau allanol (Argymhelliad 8)

Drwy gydol oes y Cynllun rydym wedi sicrhau bod gofyniad ar ddarparwyr trydydd parti i ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu manylebau ar gyfer gwasanaethau. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn nogfennau'r contract a'i fonitro gan y tîm rheoli contractau. Mae ein Tîm Comisiynu Gwasanaeth Prawf Cymru hefyd wedi cynnwys proses sgrinio cydraddoldeb gynnar sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff sy'n cynnig gwasanaethau neu brosiectau a gomisiynir ystyried ein dyletswyddau iaith Gymraeg, a chyfleoedd i wneud y mwyaf o'n darpariaeth Gymraeg.

Mae gan ein darpariaethau addysg dan gontract o fewn CEF Berwyn a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc gontractau a manylebau gwasanaeth gwell o'r newydd i sicrhau bod darparwyr yn diwallu anghenion carcharorion Cymru drwy gynllunio a gweithredu cwricwlwm i gynnig darpariaeth Gymraeg. Gall hyn gynnwys Siarad, Gwrando ac Ysgrifennu Cymraeg sylfaenol, canolradd neu uwch yn dibynnu ar y garfan ac anghenion y carcharor. Ysgrifennir pob contract i sicrhau bod anghenion carcharorion o Gymru yn cael eu diwallu fel yr amlinellir yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn (2019).

## Edrych Ymlaen

Wrth i ni fyfyrio ar gyflawniadau a heriau yn ystod oes ein Cynllun Iaith Gymraeg, rydym yn awr yn edrych tuag at ddatblygu Cynllun newydd a fydd yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed, gan ail-ganolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd hynny sydd angen sylw o hyd.

Mae'r canlynol yn nodi meysydd ffocws posibl yn y dyfodol, i'w hystyried wrth ddatblygu ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2024-2027, yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid:

- Datblygu a gweithredu ein polisi sgiliau iaith Gymraeg yng Nghymru, gan gynnwys dull mwy cadarn o asesu gofynion y Gymraeg mewn swyddi a chryfhau ein dull o recriwtio a chefnogi staff yn ehangach.
- Archwilio opsiynau ar gyfer pecyn ymwybyddiaeth iaith Gymraeg cenedlaethol ar gyfer holl staff HMPPS.
- Datblygu ein gwasanaethau digidol dwyieithog ar gyfer carchardai a gwelliannau i Common Platform GLlTEF.
- Pennu a chyflawni isafswm cyfradd gwblhau ar gyfer ein cwestiwn monitro iaith Gymraeg staff ar ein system AD er mwyn galluogi dadansoddi proffil ieithyddol ein gweithlu yn well.
- Datblygu pecyn cyfathrebu/hyrwyddo safonol ar gyfer yr holl garchardai a gwasanaethau prawf ar draws Cymru a Lloegr, gan amlygu hawliau carcharorion o ran yr iaith Gymraeg, mecanweithiau i wneud cwynion, a hyrwyddo'r Cynllun newydd unwaith y caiff ei gyhoeddi.
- Adnewyddu ein strwythur llywodraethu cenedlaethol i wella goruchwyliaeth ac atebolrwydd ar gyfer ein Cynllun Iaith Gymraeg newydd ar lefel Genedlaethol.
- Gweithio gyda charchardai a gwasanaethau prawf yn Lloegr i greu darlun cywir o'r galw am y Gymraeg, a'r ddarpariaeth bresennol.
- Trosoli dylanwad ein Huwch Hyrwyddwr Iaith Gymraeg sydd newydd ei benodi i ddylanwadu ar bolisïau a chynlluniau cenedlaethol carchardai a phrawf a'u llunio.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymgysylltu â'n staff a'n cymunedau Cymraeg eu hiaith ar draws HMPPS i lunio ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, a chynnal perthynas waith agos â Chomisiynydd y Gymraeg a'i Swyddfa.

## Cyswllt

Rydym yn croesawu sylwadau ac adborth ar yr adroddiad hwn a'n gwaith o ran yr iaith Gymraeg yn ehangach. Gallwch gysylltu â ni yn cymraeghmpps@justice.gov.uk

# Atodiad A

**Argymhellion Comisiynydd y Gymraeg; Y Gymraeg mewn Carchardai, 2018**

**Argymhelliad 1:** Dylai HMPPS ystyried addasu ei drefniadau ar gyfer lleoli carcharorion er mwyn sicrhau, pan fo hynny'n ymarferol, fod carcharorion sydd angen gwasanaethau Cymraeg yn cael eu lleoli yn y carchardai sydd fwyaf abl i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

**Argymhelliad 2:** Dylai HMPPS sicrhau bod anghenion menywod sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth i droseddwyr benywaidd dan strategaeth y Llywodraeth.

**Argymhelliad 3:** Dylai HMPPS addasu'r data y mae'n ymrwymo i'w gasglu ynghylch anghenion iaith carcharorion, er mwyn adnabod dewis iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd, ac er mwyn adnabod gallu i siarad Cymraeg yn ogystal â dewis iaith.

**Argymhelliad 4:** Dylai HMPPS gryfhau ei drefniadau er mwyn sicrhau bod data ynghylch y Gymraeg yn cael ei gasglu ar gyfer pob carcharor yn ddi-ffael, a bod modd i bob carchar gael mynediad at ddata cywir er mwyn cynllunio'i wasanaethau.

**Argymhelliad 5:** Dylai HMPPS gymryd camau i'w gwneud yn gwbl glir fod modd i garcharorion gyfathrebu yn Gymraeg â'i gilydd ac â chysylltiadau allanol, gan nodi'n fanwl dan ba amgylchiadau na chaiff hynny ei ganiatáu.

**Argymhelliad 6:** Dylai HMPPS ddatblygu cyfleoedd pellach i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol yn CEF Berwyn ac mewn carchardai eraill.

**Argymhelliad 7:** Dylai HMPPS gryfhau ei drefniadau er mwyn monitro argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a gynigir o fewn carchardai, a rhoi cefnogaeth i garchardai gynnig y gwasanaethau hynny.

**Argymhelliad 8:** Dylai HMPPS adolygu ei drefniadau ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau a gynigir o fewn carchardai gan sefydliadau allanol yn cydnabod y ffaith fod gwasanaethau Cymraeg yn arwain at ganlyniadau gwell i siaradwyr Cymraeg.

**Argymhelliad 9:** Dylai HMPPS weithredu proses barhaus i gasglu data cyfredol ynghylch sgiliau iaith staff carchardai, a dylai ddefnyddio'r data hwnnw i gynllunio gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth carcharorion ynghylch y cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff.

**Argymhelliad 10:** Dylai HMPPS gymryd camau, yn enwedig wrth recriwtio staff newydd, er mwyn sicrhau bod ganddo nifer digonol o staff er mwyn cynnig gwasanaethau i garcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn modd cyson a dibynadwy.

**Argymhelliad 11:** Dylai HMPPS ystyried y ddarpariaeth Gymraeg o ddechrau'r broses wrth gynllunio i agor unrhyw garchardai newydd yng Nghymru, gan gynnwys cynllunio i recriwtio staff â sgiliau Cymraeg.

**Argymhelliad 12:** Dylai HMPPS adolygu'r hyfforddiant y mae'n ei gynnig i staff carchardai er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a amlygir yn yr adroddiad hwn, yn benodol o ran cofnodi data ynghylch siaradwyr Cymraeg ac ymyrryd â'r rhyddid i siarad Cymraeg, ac archwilio'r posibilrwydd o gynyddu ei gapasiti drwy ddatblygu sgiliau iaith ei staff presennol.

**Argymhelliad 13:** Dylai HMPPS sicrhau bod prosesau ar gyfer delio â chwynion mewnol yn rhoi hyder i garcharorion fod materion yn cael eu datrys yn briodol, ac yn galluogi carchardai i wella'u gwasanaethau.

**Argymhelliad 14:** Dylai HMPPS sicrhau bod carcharorion yn ymwybodol fod ganddynt hawl i gwyno wrth y Comisiynydd am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, a dylai hwyluso unrhyw gŵyn y dymuna carcharor ei gwneud.

**Argymhelliad 15:** Dylai HMPPS barhau â'i ymdrechion i ymgysylltu â charcharorion er mwyn dysgu am eu profiadau ac ymgynghori ynghylch datblygiadau.

**Argymhelliad 16:** Dylai HMPPS ystyried canfyddiadau'r arolwg hwn wrth ddiwygio'i gynllun iaith Gymraeg, a sicrhau bod ganddo drefniadau atebolrwydd priodol ar gyfer monitro cynnydd wrth weithredu'r argymhellion.

**Argymhelliad 17:** Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau bod y cyfeiriad polisi, yr adnoddau a'r trefniadau atebolrwydd sydd ganddi mewn lle mewn perthynas â HMPPS yn golygu bod y ddarpariaeth Gymraeg i garcharorion yn ddigonol.

# Atodiad B

**Cwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg 2020-2023**

| Math o gŵyn | Natur y gŵyn | Dyddiad |
|---|---|---|
| Cwynion Mynediad Cyfrinachol (Carcharor i Gyfarwyddwr Grŵp Carchar) | Ni dderbyniwyd unrhyw un | Amh |
| Llythyrau Ymholiadau Cyhoeddus (Swyddfa Cyfarwyddwr Grŵp Carchardai) | Cwyn gan aelod o’r cyhoedd bod caniatáu i garcharorion yng Ngharchar Berwyn siarad Cymraeg yn risg diogelwch | 2023 |
| CEF Abertawe – cwynion carcharorion neu DIRF | Ni dderbyniwyd unrhyw un | Amh |
| CEF Berwyn – cwynion carcharorion neu DIRF | 2 gŵyn gan garcharorion nad oeddent yn gallu gwylio sianeli teledu Cymraeg.<br>Cwyn gan garcharor fod Gwrandäwr Cymraeg wedi ei wadu iddo.<br>Cwyn gan garcharor fod cwis Dydd Gwyl Dewi yn uniaith Saesneg.<br>Cwyn gan garcharor ei fod wedi gofyn i'w ddyfarniad gael ei glywed yn Gymraeg ond na ddigwyddodd.<br>Cwyn gan garcharor ynghylch cynrychiolaeth anghymesur o siaradwyr Cymraeg mewn swyddi.<br>Cwyn gan garcharor na allai siarad Cymraeg mewn adolygiad Trefn Dda a Disgyblaeth. | 2020<br>2021<br>2021<br>2021<br>2021<br>2021 |
| CEF Caerdydd – cwynion carcharorion neu DIRF | Ni dderbyniwyd unrhyw un | Amh |
| CEF Brynbuga – cwynion carcharorion neu DIRF | Ni dderbyniwyd unrhyw un | Amh |
| CEF Prescoed – cwynion carcharorion neu DIRF | Ni dderbyniwyd unrhyw un | Amh |
| CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc – | Ni dderbyniwyd unrhyw un | Amh |

| **Math o gŵyn** | **Natur y gŵyn** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| cwynion carcharorion neu DIRF | | |
| Gwasanaeth Prawf Cymru | Cwyn gan berson ar brawf bod gohebiaeth yn Saesneg er gwaethaf ei fod wedi nodi dewis iaith. | 2021 |
| Mewnflwch Cymraeg canolog | Cwyn wedi ei dderbyn gan Gymdeithas yr Iaith ynglŷn â charcharorion yn Lloegr yn cael eu rhwystro rhag siarad Cymraeg | 2022 |